

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybie a gynhaliwyd yn swyddfa'r Cyngor a trwy gyfrwng Microsoft Teams ar ddydd Mercher, Mawrth 30^{ain}, 2022 am 6.30 yh

Presennol

Cynghorwyr	P. H. Roberts	D. Nicholas	E. W. Nicholas
	R. A Davies	D Hopkins	Mrs Ll. Hindley
	Mrs K. D. L. Davies	B. Rees	A. W Jones
	Mrs Ll. Latham	A. J. Evans	Mrs A. Evans

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr	I. Rh. Llewelyn	Mrs S. E. Thomas	Mrs C. Thomas
	Mrs J. E Collins		

1065.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, roedd y Cynghorydd P. H Roberts, Is-Gadeirydd y Cyngor, wedi cymryd y Gadair ar gyfer y cyfarfod hwn.

1066.

DATGANIADAU O FUDDIANT

Roedd y Cynghorydd D. Nicholas wedi datgan buddiant yn Jam Tybie gan ei fod yn gwasanaethu fel Cyfarwyddwr Cwmni Budd Cymdeithasol Jam Tybie.

Roedd y Cynghorydd R. A. Davies wedi datgan buddiant gan ei fod yn Ysgrifennydd a Thrysorydd ar Glwb Tennis Llandybie.

Roedd y Cynghorydd E.W. Nicholas wedi datgan buddiant gan ei fod yn Llywydd ar Glwb Tennis Llandybie, ac yn gasanaethu fel Cyfarwyddwr Cwmni Budd Cymdeithasol Jam Tybie.

1067.

COFNODION

Rhodddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar Chwefror 23ain, 2021.

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Chwefror 23ain, 2021.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r mynychwyr os oedd unrhyw fater i'w godi, a **phenderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion y cyfarfodydd hyn yn gofnodion cywir. **Penderfynwyd** hefyd gadarnhau argymhellion y Pwyllgor.

1068.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar Chwefror 23^{ain}, 2022

i) Cofnod rhif 1052 – Gŵyl y Banc ar Ddydd Gŵyl Dewi - erbyn hyn fe dderbyniwyd ymateb oddiwrth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch y mater hwn. Mae Llywodraeth y DU yn datgan er ei bod yn gwerthfawrogi'r teimladau sydd y tu ôl i'r cais, ac yn cydnabod pwysigrwydd Dydd Gŵyl Dewi i bobl Cymru, mae'r gost i'r economi o gynnal gŵyl y banc ychwanegol yn dal yn

sylweddol. Ar hyn o bryd o bryd nid oes gan y Llywodraeth unrhyw gynlluniau i newid y trefniadau, sydd wedi'u hen sefydlu a derbyn, ar gyfer gwyliau banc yng Nghymru.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi datgan nad yw'r mater hwn wedi'i ddatganoli, felly nid oes gan y Llywodraeth yr hawl i drefnu gwyliau banc. Roedd Llywodraeth y DU wedi gwrthod, cyn hyn, y cais naill ai i wneud Dydd Gŵyl Dewi yn wyl y banc neu i ddatganoli'r grym, fel bod y Senedd a Llywodraeth Cymru hwythau yn derbyn yr hawl i wneud hynny.

Roedd y Cynghorwyr Mrs Ll. Latham a D. Hopkins am osod ar gofnod eu gwrthwynebiad i safbwynt Llywodraeth y DU ynghylch y mater.

GOHEBIAETH

1069.

Adroddiadau'r Heddlu

Mae'r ffigyrau trosedd ar gyfer Mawrth 2022 wedi'u hatodi isod:

Llandybie

Lladrad 2

Ymosod 2

Bygythiadau i ladd 2

Ymddygiad Rheolaethol a Gorfodoaethol 1

Blacmel 1

Troseddau'n ymwneud â Chyffuriau 2

Aflonyddu 2

Difrod Troseddol 2

Cyfathrebu Maleisus 3

Saron, gan gynnwys Capel Hendre a Phenybanc

Lladrata cerbyd modur 1

Lladrad 1

Ymosod 4

Aflonyddu 4

Difrod Troseddol 3

Twyll 1

Penygroes

Aflonyddu

Ymosod 2

Difrod Troseddol 1

Cyfathrebu Maleisus 1

1070.

Jam Tybie

Derbyniwyd llythyr oddiwrth y Cynghorydd D. Nicholas yn gofyn am gymorth ariannol i ddigwyddiad Jam Tybie a gynhelir ar Fehefin 4^{ydd}, 2022. Nid yw'r digwyddiad gŵyl gerdd diwrnod cyfan hwn wedi'i gynnal ers 2019, a bryd hynny roedd yn llwyddiannus dros ben, ac wedi rhoi hwb i fusnesau ac elusennau lleol.

Penderfynwyd rhoi grant o £500 i gefnogi'r digwyddiad eleni.

1071.

GILFACH IAGO

Derbyniwyd diweddariad oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin i hysbysu'r Aelodau nad oedd y Cyngor Sir, hyd yn hyn, wedi derbyn y taliad gan Celtic Energy. Roedd cytundeb ariannol i sicrhau'r arian wedi'i lunio, ond heb ei arwyddo hyd yn hyn.

Nid oedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cymryd unrhyw gamau cyfreithiol pellach, a bydd ond yn gwneud hyn, ac yn cytuno ar fanylion terfynol y cynllun, ar ôl derbyn yr arian dyledus.

1072.

ADRODDIAD Y CLERC

a) Hawliau Tramwy Cyhoeddus

i) Llwybr Troed rhif 33/12 yng Nghwmgwili

Yn ystod y tywydd garw diweddar roedd coeden fawr wedi cwmpo ar lwybr troed rhif 31/12 yng Nghwmgwili ac wedi blocio'r llwybr troed yn gyfangwbl. Roedd Dynevor Tree Services wedi darnio'r goeden a'i chlirio yn foddhaol, a hynny am bris o £250. Gyda chydysniad y Cadeirydd, roedd yr anfoneb wedi'i thalu.

ii) Llwybr Troed rhif 51/105 ym Monllwyn

Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cael gwybod am ddifrod i'r ffensys yng nghefn dau eiddo sydd â'u cefnau'n ffinio ar i'r llwybr troed hwn, a bod y mater yn peri risg Iechyd a Diogelwch posibl i aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio'r llwybr troed. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gosod hysbyseb cau brys ar y llwybr i ddiogelu'r cyhoedd, ac wedi cysylltu â'r gymdeithas dai sydd yn gyfrifol am yr eiddo.

iii) Gwaith ar rwydwaith yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn Ardal y Gymuned

Roedd manylion gwariant y Cyngor ar yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn Ardal y Gymuned wedi'u cyflwyno at Uned Hamdden Cefn Gwlad y Cyngor Sir, yn gofyn am ad-daliad o'r costau hyn, fel y gwnaethpwyd yn y blynyddoedd blaenorol.

Cyfanswm cost y gwaith oedd £6230.00 gan eithrio'r elfen TAW, sydd yn cael ei hawlio yn ôl yn uniongyrchol gan y Cyngor oddiwrth Gyllid y Wlad.

Derbyniwyd y swm o £3000 oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/2022.

b) Parciau

i) Teledu Cylch Cyfyng

Roedd y gwaith o osod y system Teledu Cylch Cyfyng ym Mharc Penygroes wedi'i gwblhau'n foddhaol gan gwmni Security Solutions Ltd am y dyfynbris y cytunwyd arno, sef £4689.36. Roedd costau ymlaen llaw ychwanegol y cytunwyd arnynt, sef £250, ynghyd â chost data'r rhwydwaith ar gyfer mis Mawrth o £24.99, wedi cynyddu cyfanswm yr anfoneb i £4964.35 a TAW.

Yn ychwanegol, derbyniwyd anfoneb oddiwrth Security Solutions Ltd. am fwydo data'r rhwydwaith am 11 mis ychwanegol, cyfanswm o £274.89 a TAW; bydd hyn yn sicrhau bod cysylltiad 4G i'r camerau. Mae Aseiad Effaith Data llawn wedi'i lunio, ac mae polisi Teledu Cylch Cyfyng ac hysbyseb preifatrwydd Teledu Cylch Cyfyng pwrpasol wedi'i llunio a'u hychwanegu at y wefan.

Penderfynwyd talu'r ddwy anfoneb.

ii) Arwyddion

Mae arwyddion newydd, ac arwyddion yn lle'r arwyddion presennol, yn gofyn bod cŵn yn cael eu cadw ar dennyn, ac yn cadw draw rhag ddefnyddio'r caeau chwaraeon, wedi'u harchebu. Derbyniwyd anfoneb am £330 oddiwrth Designz o Waun Cae Gurwen a, gyda chydysyniad y Cadeirydd, ei thalu.

iii) Byrddau cyfathrebu i blant

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, drwy law eu Hadran Therapi Lleferydd ac Iaith Pediatrig, wedi cynnig byrddau cyfathrebu dwyieithog am ddim, i'w gosod yn y parciau i helpu plant sy'n wynebu anawsterau cyfathrebu. Yn aml, mae gan y plant hyn anghenion ychwanegol ac efallai maen nhw'n dioddef oedi mewn datblygu iaith, ac mae hyn yn ei gwneud cyfleu i eraill yr hyn y maen nhw'n ei olygu yn anoddach. Mae'r byrddau yn mesur 3 troedfedd wrth 2 droedfedd, a byddant yn cael eu gosod ger yr offer sy'n cael ei ddefnyddio gan y plant bach.

Penderfynwyd cymeradwyo gosod y byrddau.

iv) Roedd y gwaith i'r offer yn y parciau a'r gwaith cynnal a chadw'r wyneb a adnabyddwyd yn adroddiad arolygu mis Chwefror wedi'i gwblhau gan P Bishop am bris o £400, a hynny i gynnwys cost peth cydrannau a'r gwaith llafur.

Penderfynwyd talu'r anfoneb.

c) Dyfynbrisiau Arolygu'r Coed

Gofynnwyd i bum contracwr ddarparu dyfynbrisiau arolygu'r coed. Roedd dau contractwr wedi ymateb gan gyflwyno dyfynbrisiau, ac roedd un arall wedi dweud na fyddai, oherwydd ymrwymadau gwaith a theulu, yn gallu cyflwyno dyfynbris. Roedd dau heb ymateb.

Penderfynwyd dyfarnu'r contract i Tree Consultants Wales o Hwlfordd, am bris o £1200 y flwyddyn a TAW, a hynny am gyfnod o ddwy flynedd.

ch) Cluniadur i'r Clerc

Roedd y Clerc wedi dweud ym mis Rhagfyr 2020 bod angen amnewid cluniadur y Cyngor a **phenderfynodd** y Cyngor Llawn bryd hynny (Cofnod 806(h)) y dylid costu cluniadur amgen. Yn dilyn prawf diagnostig roedd perfformiad y teclyn wedi bod ychydig yn well ond, yn fwy diweddar, roedd ei berfformiad wedi bod yn llai na boddhaol. Roedd y Clerc wedi trafod y mater gyda'r Cadeirydd, a oedd wedi cytuno y dylid prynu cluniadur newydd.

Derbyniwyd tri dyfynbris a phrynwyd cluniadur newydd oddiwrth Morgan and Morgan, gan drefnu bod yr holl ddata yn cael ei drosglwyddo o'r hen gluniadur i'r un newydd. Derbyniwyd anfoneb am £574.80 a, gyda chydsyniad y Cadeirydd, ei thalu.

Penderfynwyd cymeradwyo, yn ôl-weithredol, prynu'r teclyn.

d) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad blynyddol 2022/23

Bydd Cyngor Cymuned Llandybie yn aros ym Mand A ar gyfer 2022/23 gan adlewyrchu bod yr incwm a'r gwariant eleni yn uwch na'r trothwy o £200,000.

Mae'r penderfyniadau sy'n berthnasol i Gyngor Cymuned Llandybie, ac a wnaethpwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, fel a ganlyn:-

Penderfyniad 43 – Rhaid darparu taliad tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol ac ar gyfer anghenion cymorth personol, yn amodol ar yr amodau a ddatganwyd yn y penderfyniad.

Penderfyniad 44 – Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w aelodau fel cyfraniad tug at gostau a threuliau. Gan fod y taliad hwn yn orfodol, rhaid ei dalu i bob cynghorydd onibai bod y cynghorydd unigol hwnnw'n gwneud penderfyniad personol i wrthod rhan o'r taliad, neu'r taliad cyfan.

Penderfyniad 45 – Rhaid i'r Cyngor sicrhau taliad o £500 i lleifaswm o 1 ac uchafswm o 7 aelod i'r aelodau hynny sy'n ymgymryd â dyletswyddau penodol. Hyd yn hyn mae Cyngor Cymuned Llandybie wedi darparu'r fath swm i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd onibai bod y cynghorydd unigol hwnnw'n gwneud penderfyniad personol i wrthod rhan o'r taliad, neu'r taliad cyfan.

Penderfynwyd parhau cynnig taliadau o £500 i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.

Mae Penderfyniadau 46-48 yn cydnabod y dylid ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth, talu iawndal am golled ariannol i bob un o'r aelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo o ganlyniad i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd, ac ad-dalu costau gofal a chymorth personol pe byddai hawliad priodol yn cael ei gyflwyno.

Mae'r rhain yn ddewisol, a **phenderfynwyd** y dylid cynnig y taliadau hyn i unrhyw Gynghorydd sy'n dewis eu hawlio.

Mae Penderfyniad 49 yn cydnabod y gall pob Cyngor benderfynu cyflwyno lwfans presenoldeb nad yw'n fwy na £30 ar gyfer pob digwyddiad. Mae hwn yn ddewisol, a bydd yn cael ei drafod ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Penderfyniadau 50 a 51 – gall y Cyngor ddarparu taliad i Gadeirydd y Cyngor o hyd at uchafswm o £1,500, ac i'r Is-Gadeirydd o hyd at £500.

Yn flaenorol mae Lwfans y Cadeirydd wedi'i bennu yn £300 y flwyddyn. Yn dilyn canllawiau y soniwyd amdanynt mewn cyfarfod diweddar y Clercod, roedd cyfrif y Cadeirydd wedi'i gau, a'r swm a oedd yn weddill, sef £23.60, wedi'i drosglwyddo i brif gyfrif y Cyngor.

Penderfynwyd y byddai'r holl daliadau a wnelir yn y dyfodol ar gais y Cadeirydd yn cael eu talu drwy brif gyfrif y Cyngor, yn amodol ar gadw at derfyn blynyddol o £300.

dd) Un Llais Cymru – adnewyddu aelodaeth ar gyfer 2022/2023

Roedd angen adnewyddu aelodaeth o'r mudiad hwn ar Ebrill 1^{af} 2022 ac roedd y Clerc wedi derbyn anfoneb adnewyddu am £1891. Mae'r ffi yn seiliedig ar 5255 tŷ annedd (cyfanswm a dynnwyd o'r Rhestr Brisio) o £0.36 ceiniog yr eiddo. Gyda mwy a mwy o gyfrifoldebau yn cael eu datganoli i Gynghorau Cymuned, mae'r Clerc wedi gofyn cyngor ynghylch nifer o faterion yn ystod y flwyddyn, ac mae'r diweddariadau cyson ar faterion yn ymwneud â materion lleol, gofynion cyfreithiol ac ariannol ac hyfforddiant wedi bod yn adnodd gwerthfawr dros ben.

Penderfynwyd y dylai aelodaeth o Un Llais Cymru barhau am y 12 mis nesaf.

e) Adnewyddu'r yswiriant – yn ddyledus ar Ebrill 1^{af} 2022

Roedd y Clerc wedi derbyn dyfynbris adnewyddu oddiwrth Pen Underwriting Limited am y swm o £2406.38, gan gynnwys Treth Premiwm Yswiriant a ffi gweinyddol. Gyda chydysyniad y Cadeirydd, roedd yr anfoneb wedi'i thalu.

Yn 2021, roedd y Cyngor wedi dewis dod i gytundeb sefydlog, 3-blynedd o hyd, gyda Pen Underwriting Limited er mwyn sicrhau sefydlogrwydd cyfradd. Bydd y cytundeb yn dod i ben ar 31/3/2024.

Oherwydd y cynnydd mewn costau adeiladu sydd erbyn hyn i'w gweld ledled y DU, roedd y cwmni yswiriant wedi argymhell bod costau ail-adeiladu'r ddau bafiliwn a'r

cyfleusterau cyhoeddus yn cael eu hadolygu cyn ein bod yn adnewyddu'r yswiriant yn Ebrill 2023.

f) Etholiadau'r Cyngor 2022

Anfonwyd at y Cynghorwyr manylion y gweithdrefnau sydd angen eu dilyn os yr ydynt am gael eu hystyried i'w hail-ethol yn yr etholiadau i Gynghorau Cymuned a gynhelir ym mis Mai 2022. Roedd stoc o ffurflenni enwebu ar gael gan y Clerc i aelodau'r cyhoedd, ac roedd dolen wedi'i hychwanegu at wefan y Cyngor.

ff) Graddfa Gyflog

O'r diwedd, yn ystod mis Mawrth 2022, roedd y Gymdeithas Cynghorau Lleol wedi cyhoeddi'r graddfeydd cyflog newydd i staff ar gyfer 2021/2022 – 12 mis ar ôl yr adeg y dylai'r raddfa wedi bod yn weithredol. Roedd y codiadau cyflog wedi cael eu prosesu i adlewyrchu 12 mis o dandaliad.

g) Cais Rhyddid Gwybodaeth

Derbyniwyd gohebiaeth oddiwrth breswylydd lleol parthed â datgan aelodaeth o'r seiri rhyddion fel buddiant personol pan yn delio â materion yn ymwneud â'r cyngor. Anfonwyd ymateb yn hysbysu'r preswylydd bod holl Gynghorwyr Cymuned Llandybïe yn cadw at y Côd Ymddygiad Model, gyda pharagraff 10(2)(ix)(ee) yn datgan yn benodol bod rhaid i gynghorydd lofnodi Datganiad o Fuddiant pan mae ganddo fuddiant personol, o ran busnes sy'n ymwneud â'r cyngor, mewn clwb, gymdeithas neu fudiad preifat y mae'n aelod ohono.

Ni oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant a lofnodwyd yn ystod tymor hwn y cyngor wedi cynnwys unrhyw fuddiannau a oedd yn ymwneud â'r seiri rhyddion.

ng) Mainc ochr y ffordd yn Heol Ddu

Gofynnwyd i'r Clerc amnewid mainc wrth gyffordd Heol y Mynydd a Heol Ddu gan nad oedd y fainc wedi'i hamnewid yn flaenorol. Mae'r sail concrit eisoes yn ei le a **phenderfynwyd** y dylai'r Clerc gaffael prisiau am fainc newydd i'w gosod yn y lleoliad hwn.

h) Sgwâr Saron

Derbyniwyd yr anfoneb blynyddol, am gynnal a chadw'r gwely llwyni ar sgwâr Saron, oddiwrth Wrenvale Nurseries and Landscapes am bris o £360 a TAW. **Penderfynwyd** talu'r anfoneb.

i) Cyfleusterau Cyhoeddus

Roedd y Clerc wedi cytuno bod J T Services yn trefnu amnewid sedd toiled ym Mhenygroes a newid tap toredig yn y toiled i'r anabl yn Llandybïe, a oedd dros nos wedi achosi llif bychan yn y toiledau. Roedd y gost o £132, i gynnwys pris y darnau angenrheidiol a'r gwaith, wedi'i ychwanegu at anfoneb cytundeb cynnal a chadw misol arferol y contractwr. **Penderfynwyd** y dylid talu'r anfoneb.

l) Datblygu Cymunedol 2022/2023

Yn dilyn Adroddiad 5-mlynedd y Contractwr Gosod Cyfarpar Trydanol, roedd y Cyngor eisoes wedi cytuno y dylid dyrannu cyllideb o £4,000 ar gyfer y gwelliannau sydd eu hangen i'r llif-oleuadau yng nghyrtiau tenis Llandybïe. Roedd y Clerc wedi derbyn 3 dyfynbris a **penderfynwyd** y dylid dyfarnu'r cytundeb i Celsius Installations and Services Ltd o Benygroes am bris o £2715 a TAW.

ll) Costau cynnal a chadw ac ynni i'r Goleuadau Cyhoeddus

Derbyniwyd anfoneb am £3743.91 a TAW oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin am y cyfnod 1/4/21 hyd at 31/3/22.

Roedd y costau blynyddol blaenorol fel a ganlyn:

2017/18	£7516.20
2018/19	£7877.40
2019/20	£5423.76
2020/21	£5069.16

Mae'r costau is yn ystod y tair blynedd ddiwethaf yn adlewyrchu newid holl lampau'r Cyngor Cymuned i lampau LED.

Penderfynwyd talu'r anfoneb.

m) Goleuadau Stryd LED

Derbyniwyd anfoneb am £14595 a TAW oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin am amnewid i lampau LED 105 o oleuadau'r Cyngor Cymuned. Roedd y prosiect hwn wedi'i weithredu yn ystod 2019/2020, a chytunwyd y byddai'r taliad yn cael ei wneud yn y flwyddyn ariannol hon. **Penderfynwyd** y dylid talu'r bil.

1073.

MATERION ARIANNOL

(i) Talu'r biliau

Derbyniwyd yr anfonebau canlynol yn ystod Mawrth 2022 a, gyda chydysyniad y Cadeirydd, eu talu.

5783	Newhall Janitorial Ltd	Deunyddiau glanhau i'r cyfleusterau cyhoeddus	£167.56
5784	Designz	Arwyddion newydd, ac amnewid arwyddion yn y parciau	£330.00
5786	R Gleaves	Tynnu mainc ochr y ffordd i ffwrdd a gosod un newydd yn ei lle	£250.00
5789	EDF	Parc Capel Hendre – Chwefror 2022	£12.92
5790	EDF	Sied fowlio Llandybïe - Chwefror 2022	£21.37
5791	EDF	MUGA Llandybïe – Chwefror 2022	£12.92

Cadeirydd

5792	EDF	Pafiliwn Llandybïe – Chwefror 2022	£26.52
5793	EDF	Pafiliwn Saron – Chwefror 2022	£109.18
5795	Pen Underwriting Ltd	Adnewyddu, yn flynyddol, yr yswiriant 1/4/22- 31/3/23	£2406.38
5801	Dynevor Tree Services	Darnio a chludo i ffwrdd y goeden fawr a oedd wedi cwmpo ar lwybr troed rhif 33/12 yng Nghwmgwili	£250.00
5802	EDF	Parc Penygroes – Chwefror 2022	£12.46
5804	Morgan and Morgan	Cluniadur newydd i'r Clerc	£574.80

Yn ychwanegol, derbyniwyd yr anfonebau canlynol:

5785	JEMS Environmental Ltd	Hylendid dŵr - Chwefror 2022	£281.26
5787	Morgan and Morgan	Ffi blynyddol lletya'r ebost	£88.80
5788	Martin Davies	Cyfieithu'r Cofnodion	£129.05
5794	Un Llais Cymru	Adnewyddu aelodaeth blynyddol 2022/2023	£1891.00
5796	S Griffith	Cyflog Mawrth 2022, gan gynnwys lwfans defnyddio'r tŷ fel swyddfa ynghyd â'r setliad cyflog y cytunwyd arno.	£3453.94
5797	R Thomas	Cyflog Mawrth 2022, gan gynnwys lwfans defnyddio'r tŷ fel swyddfa ynghyd â'r setliad cyflog y cytunwyd arno.	£773.09
5798	Cyllid y Wlad	Mawrth 2022	£1684.86
5799	Security Solutions	Gosod Teledu Cylch Cyfyng ym Mharc Penygroes	£5957.22
5800	Newhall Janitorial Ltd	Deunyddiau glanhau i'r cyfleusterau cyhoeddus	£71.52
5803	Security Solutions	Cysylltiad 4G i'r Teledu Cylch Cyfyng Ebrill 2022 - Chwefror 2023	£329.87
5805	R Thomas	Treuliau o 1/10/21 hyd at 31/3/22, gan gynnwys teithio, costau post ac inc	£148.41
5806	S Griffith	Treuliau o 1/10/21 hyd at 31/3/22, gan gynnwys teithio, costau post ac inc	£438.82
5807	SSE Swalec	Trydan yng nghyfleusterau cyhoeddus Penygroes o 25/12/21 hyd at 16/3/22	£38.90
5808	Wrenvale Nurseries & Landscapes	Cynnal a chadw, yn flynyddol, y gwelyau llwyni ar sgwâr Saron	£432.00
5809	J T Services	Agor a chau'r cyfleusterau cyhoeddus, a darparu a gosod sedd newydd i'r toiled a gosod tap newydd.	£1063.00
5810	P Bishop	Cynnal a chadw offer yn y parciau	£400.00
5811	Cyngor Sir Caerfyrddin	Cost goleuo'r llwybrau troed Ebrill 21 hyd at Mawrth 22, gan gynnwys cynnal a chadw a chostau ynni	£4492.69

5812	EDF	Parc Capel Hendre – Mawrth 2022	£12.46
5813	EDF	MUGA Llandybïe – Mawrth 2022	£12.46
5814	EDF	Pafiliwn Llandybïe – Mawrth 2022	£27.89
5815	EDF	Pafiliwn Saron – Mawrth 2022	£15.59
5816	Cyngor Sir Caerfyrddin	Amnewid y lampau am lampau LED i oleuo'r ffordd	£17514.00
5817	Hefin Jones	Cyfleusterau cyfieithu yn y cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar 30/3/22	£85.00
5818	Jam Tybie CBC	Grant	£500.00
5819	Streetmaster Uk Ltd	Diffyg ar siec rhif005760	£0.20

Mae Siec 5819 yn cynrychioli diffyg ar gyfer siec rhif 5760 wedi'i ddebydu i **gyfrif** banc 20c yn fyr.

Penderfynodd yr Aelodau i gymeradwyo talu'r cyfrifon hyn, a chymeradwyo, yn ôl-
weithredol, y taliadau a awdurdodwyd gan y Cadeirydd.

(ii) Monitro'r gyllideb yn fisol – Ebrill 1/4/21 hyd at 28/02/22

Amcangyfrif 2020/21	Gwariant gwirioneddol hyd yn hyn	
£	£	
180,000	180,000	Praesept
150	18	Llog: Lloyds
		Llog: cyfrifon cadw
400	201	
		Hawliau Tramwy
3000	3,000	Cyhoeddus
	13,274	Adran 106
4700	2,350	Cytundebau Llogi
	1,776	Ad-daliad Ardrethi
<u>188,250</u>	<u>200,619</u>	
<u>45,889</u>	<u>46,159</u>	Staffio
17,650	10,437	Adeiladau
		Gwasanethau
4,750	3,032	Swyddfa
3,100	270	Costau'r Aelodau
		Gwasanaethau a
10,000	4126	Thanysgrifiadau
} 18,000	9,130	Adran 137
		Taliadau yn unol â phwerau
	0	eraill

Mawrth 30^{ain}, 2022

	850	Mannau agored cyhoeddus
	4,350	Neuaddau pentref
	4,100	Claddfeydd
}		
10,000	6,230	Hawliau Tramwy Cyhoeddus – cynnal a chadw
	0	Hawliau Tramwy Cyhoeddus - gwelliannau
28,000	26,438	Torri'r glaswellt/ sbwriel/ cyfleusterau
		Atgyweirio ac amnewid offer yn y parciau
50,000	35,688	
}	0	Goleuo cyhoeddus - ynni
8,500	0	Goleuo cyhoeddus - gwelliannau
28,000	5,524	Datblygu cymunedol Cyfleusterau
13,000	10,015	cyhoeddus
<u>236,889</u>	<u>129,833</u>	

**Balans am y flwyddyn
(cyfnod**

	34,270	
	311,004	d/y
<u>0</u>	<u>345,274</u>	c/y
		Arian parod a buddsoddiadau
	339,200	
	6,074	Dyledwyr
	0	Credydwyr
	<u>345,274</u>	

Roedd y Cadeirydd wedi gwahodd cwestiynau neu sylwadau.

Penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo'r cyfrifon fel uchod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei adroddiad.

1074.

Adroddiad ynghylch cyllid Adran 106

Nid oedd unrhyw faterion i'w cofnodi.

1075.

Gwybodaeth ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd

Nid oedd unrhyw faterion i'w cofnodi.

Cadeirydd

Mawrth 30^{ain}, 2022

1076.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar Ebrill 27^{ain}, 2022

1077.

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.25 yh.